PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 8 MEHEFIN 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Ali Ahmed, Carter, Ralph Cook, Chris Davis, Lomax, Magill a/ac Sanders |

1 : PENODI CADEIRYDD

Nodi yng nghyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Mai 2016, y penodwyd y Cynghorydd Mary McGarry yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn.

2: AELODAU'R PWYLLGOR

Nodi yng nghyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Mai 2016, y penodwyd y Cynghorwyr McGarry (Cadeirydd), Ali Ahmed, Joseph Carter, Ralph Cook, Chris Davis, Chris Lomax, Julia Magill ac Eleanor Sanders yn Aelodau o'r Pwyllgor hwn. (1 swydd yn dal i fod yn wag).

3 : CYLCH GORCHWYL

PENDERFYNWYD: Cytuno ar Gylch Gorchwyl Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Oedolion a Chymunedau.

4 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

5 : DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Lomax fuddiant personol gan ei fod yn byw mewn llety gwarchod y Cyngor.

6 : COFNODION

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2016 fel gwir gofnod a'u llofnodi gan y Cadeirydd, yn amodol ar y diwygiad canlynol:

Tudalen 4, dileu 'dywedodd Aelodau'r Cabinet y byddent yn ceisio Llywodraeth Cymru am ei chyfraniad at y Bwlch' a nifer o wallau teipio.

7 : PERFFORMIAD CHWARTER 4 – CRAFFU AR FONITRO PERFFORMIAD ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 4

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Derbyshire Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a'r Cyng. Susan Elsmore Aelod Cabinet dros Iechyd, Tai a Llesiant i'r cyfarfod; Croesawodd y Cadeirydd Andrew Gregory Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas a Dave Holland Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Chymorth a oedd yn bresennol i ateb cwestiynau Aelodau ar graffu ar berfformiad PSR/004; bu Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid a Jane Thomas Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymunedau a Thai yn bresennol i ateb cwestiynau'r

Aelodau ar graffu ar berfformiad Cymunedau a Thai; bu Tony Young Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Amanda Phillips Cyfarwyddwr Gwasanaethau Oedolion yn bresennol i ateb cwestiynau’r Aelodau ar berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon wedi rhoi cyfle i'r Aelodau graffu ar fonitro perfformiad. Yn y cyfarfod blaenorol, gofynnodd yr Aelodau i’r Panel Perfformiad frysbennu adroddiad chwater 4 y mae wedi ei wneud. Yn ogystal â chraffu ar Gymunedau a Thai a Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion fel arfer, penderfynon nhw fod angen canolbwyntio ar ymholiad penodol ar gyfer Gweithrediadau’r Ddinas ynglŷn â dangosydd PSR/004, rhoddwyd rhagor o fanylion am y dangosydd hwn ym mhwynt 9 yr adroddiad.

Bu i’r Cadeirydd wahodd y Cynghorydd Derbyshire i wneud datganiad a dywedodd fod y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn syniad diddorol iawn; byddai defnyddio’r sector preifat ar gyfer tai cymdeithasol a Chaerdydd yn rhedeg Rhentu Doeth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru yn creu trafodaeth ddiddorol dros y flwyddyn i ddod.

Dywedodd y Swyddogion yr oedd y Gwasanaethau Rheoliadol yn gyfrifol yn uniongyrchol am y PI penodol hwn yn 2014/15 pan oedd yn swyddogaeth uniongyrchol gan Cyngor Caerdydd; mae gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir drwyddedau tai amlfeddiannaeth a chyfrifoldeb Gorfodi Tai, ond, ni throsglwyddwyd y cyfrifoldeb am PSR/004 ac o ganlyniad i hynny gostyngodd perfformiad wrth iddo aros rhwng dau gae; cymerodd swyddogion gyfrifoldeb am hyn ac mae trefniadau bellach wedi eu gosod er mwy cywiro hyn, ac mae cyfarfodydd gyda’r swyddogion perthnasol wedi eu trefnu.

Ychwanegodd y swyddogion fod y gwasanaeth hwn yn un rhagweithiol â phroffil uchel; byddant yn parhau i reoleiddio eiddo gwag, yr holl lenyddiaeth yn ymwneud ag adfer tai i’w defnyddio eto gan gynnwys yr angen i gynnwys pwy sydd â chyfrifoldeb am ba bethau, caiff protocol ei ddatblygu.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau ar PSR/004.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw’r sefyllfa fel hon mewn awdurdodau lleol eraill yn y consortiwm neu a yw’r sefyllfa yn bresennol yng Nghaerdydd yn unig. Esboniodd y swyddogion fod y swyddogaeth wedi ei gwahanu'n ôl yn hawdd mewn dau awdurdod lleol eraill, felly nid yw hyn wedi digwydd yn rhywle arall.

- Gofynnodd yr Aelodau faint o eiddo a oedd yn cael ei adfer i’w defnyddio eto ar hyn o bryd, nid oedd gan y swyddogion yr wybodaeth wrth law ond cytunon nhw ei rhoi nes ymlaen.

- Bu’r Aelodau yn ddiolchgar am onestrwydd y swyddogion ynglŷn â’r mater hwn ond nodon nhw fod y targed dal yn isel hyd yn oed os edrychid ar berfformiad y flwyddyn flaenorol; Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r targed yn is pan gaiff targedau eu gosod ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dywedodd y swyddogion fod angen cael sgwrs am hyn gyda’r swyddogion perthnasol; edrych ar y farchnad yn y ddinas a gosod targedau sy’n mynd i’r afael â’r materion; mae angen gosod targedau’n ofalus fel y gellid eu bwrw ac fel eu bod yn cael effaith ar y problemau.

- Dywedodd yr Aelodau fod hyn yn ddangosydd pwysig yn ymwneud â digartrefedd a'r angen am dai; nodwyd y caniatawyd i staff sydd wedi ymdrin â hyn adael felly mae angen chwilio am adnoddau. Dywedodd y Swyddogion fod arian wedi ei arbed yn y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir, ond dod o hyd i'r adnodd hwn fyddai'r gydran graidd yn y sgwrs y mae angen ei chael gyda'r swyddogion perthnasol.

- Bu i'r Aelodau sôn am yr effaith gynyddol ar faterion yr Amgylchedd a Gorfodi; cytunodd y Cynghorydd Derbyshire a dywedodd ei bod er lles y Cyngor iddo weithio gyda chydweithwyr y cabinet i ddatrys y mater.

- Ystyriodd yr Aelodau'r ffaith y byddai'n dda gwybod yr amserlenni o ran y trafodaethau terfynol, roedd yn ymddangos ei bod yn faes lle y gellir dadansoddi costau a buddion, fel y gellir gweld faint o ymdrech sydd o'i gymharu ar faint y gellir teimlo'r effaith ar ddigartrefedd, a defnyddio adnoddau yn rhywle arall os oes angen. Ystyriodd yr Aelodau fod hon yn ddadl y gellir ei chael gyda'r Llywodraeth Genedlaethol am berthnasedd dangosyddion perfformiad.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau ar Gymunedau a Thai.

- Gofynnodd yr Aelodau pam nad yw'r ffaith bod mwy o adnoddau yn lleihau rhestri aros ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Esboniodd y Swyddogion fod cynnydd wedi bod yn y galw a gostyngiad bach ar y cyfalaf, a dywedasant nad yw'r gwasanaeth wedi perfformio'n wael mewn blynyddoedd blaenorol ac mai hwn yw'r gwasanaeth sy'n perfformio orau yng Nghymru. Yn anffodus, gwaethygodd hyn pan nad oedd digon o gyfalaf i ateb y galw. Mae peth cyfalaf wedi ei ennill yn y flwyddyn ddiwethaf ond byddai'n cymryd amser i newid y sefyllfa; mae hyn, ynghyd ag addasiadau hir a chael dim ond un contractwr ar gyfer gwagleoedd a Grant Cyfleusterau i'r Anabl, wedi achosi trafferth; ond dywedodd y swyddogion fod rhan fwyaf yr addasiadau bellach wedi eu gwneud heblaw am estyniadau mawr ac y byddai'r ffigurau'n gwella'n sylweddol yn fuan.

- Gofynnodd yr Aelodau am amserlenni realistig o ran gwella perfformiad gwael ynglŷn â Gwagleoedd. Dywedodd y Swyddogion nad yw'r datblygiad gystal ag y roeddent eisiau iddo fod; mae'r project gweithdroad wedi gweithio'n dda gyda phroses ben i ben gyda'r Contractwr i weld sut y gellid lleihau amser; hefyd byddai mwy o waith i'w wneud yn y cyfnod rhybudd yn cael effaith ar amseroedd. Dywedodd y Swyddogion fod angen edrych at brosesau mewnol gan nad oes digon o ganlyniadau i'w gweld ar hyn o bryd; mae angen adolygiad sylfaenol i edrych ar sut y gellid symud ymlaen; edrych yn wahanol ar brojectau tymor hir/tymor byr, gan alluogi'r rhai sy'n gallu prydlesu'n gyflymach i gael eu prydlesu a derbyn bod angen mwy o amser i brydlesu eraill.

- Gofynnodd yr Aelodau pryd y llunnid yr adolygiad; dywedodd y Swyddogion eu bod yn ymgynghori ag Undebau Llafur ac y dylai gwybodaeth fod ar gael ymhen yr wythnos nesaf a'i gweithredu ymhen ychydig fisoedd. Roedd Swyddogion hefyd yn ymchwilio i feysydd eraill er mwyn ceisio gwella fel ymestyn y project gweithdroad cyflym.

- Trafododd yr Aelodau'r raddfa mesur Coch Melyn a Gwyrdd ar gyfer dangosyddion a cheision nhw eglurhad o ran a ddylid cyflawni pob un (gwyrdd) neu ddim yn eu cyflawni (coch) yn hytrach nag oren yn chwarter 4 Cytunodd y Swyddogion mai fel hyn y dylai hi fod.

- Dywedodd yr Aelodau nad yw PSR/006 yn cael ei ddefnyddio a gofynnont beth sydd wedi cymryd ei le. Esboniodd y Swyddogion eu bod yn defnyddio dangosyddion lleol.

- Gyda golwg ar atgyweiriadau brys, dywedodd yr Aelodau mai'r gyfartaledd amser a gymerodd i'r 4% na chawsant eu hatgyweirio oddi mewn i'r targed oedd 4.46 diwrnod a gofynnont am gadarnhad na chymerodd y rhan fwyaf o'r rhain cyhyd. Esboniodd y Swyddogion eu bod yn edrych ar atgyweiriadau brys yn rheolaidd; gwneir y rhan fwyaf o swyddi yn ddiogel ac yna eir yn ôl iddynt i sicrhau eu bod yn dal i fod yn ddiogel, dylid dileu swyddi oddi ar y system ond yn aml ni wneir hyn, ac mae hynny'n amharu ar y ffigurau. Ystyriodd yr Aelodau fod angen atgoffa swyddogion a chontractwyr am hyn.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet dros Iechyd, Tai a Llesiant i wneud datganiad a thynnodd hi sylw'r Aelodau at sawl PI yn benodol; roedd y niferoedd sydd wedi cydymffurfio â DPP o 31 Mai 2016 ymlaen yr ail uchaf yn y Cyngor, 94.3%. Hefyd bu datblygiad sylweddol o ran Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau ar Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

- Trafododd yr Aelodau asesiadau gofalwyr a'r targed a'i osodwyd ar eu cyfer; dywedwyd bod targedau wedi eu gosod yn flaenorol yr oedd yn anodd eu bwrw a deallodd swyddogion pa mor rhwystredig yw methu â bwrw'r rhain.

- Trafododd yr Aelodau y gorwariant a'r lefelau salwch yn y Gyfarwyddiaeth, gan ddweud bod y cynnydd yn y lefelau salwch yn gwrthdaro â sylwadau blaenorol swyddogion o ran ysbryd staff sy'n dda iawn ar hyn o bryd. Esboniodd y Swyddogion am yr arian nad arbedwyd mewn blynyddoedd blaenorol a gosod targedau afrealistig yn erbyn achosion busnes gwael. Mae Cyfarwyddwr newydd bellach wedi'i benodi a rhoddwyd sicrwydd y bydd arbedion mwy cadarn sy'n haws eu cyflawni. Dywedodd y Swyddogion mai'r arian heb ei arbed oedd y gorwariant ac yn weithredol mae'r Gyfarwyddiaeth wedi tanwario. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad yw dyled gorfforaethol y Gyfarwyddiaeth wedi ei dileu fel yr oeddent yn gobeithio, er y derbyniwyd cynnydd sylweddol yn y gyllideb sylfaenol.

  Ailadroddodd y Cynghorydd Elsmore yr hyn y mae hi wedi ei brofi o ran ysbryd staff, gan nodi'r heriau y mae staff yn eu hwynebu ond er hyn roedd cyffro yn y timau ac roedd pobl yn teimlo yn bositif ac yn edrych ymlaen at weithio dan y Cyfarwyddwr newydd.

  O ran salwch, dywedodd y Swyddogion fod salwch o ganlyniad i straen meddwl yn isel iawn mewn gwirionedd a bod oedran a demograffig y gweithlu yn ffactor ar gyfer lefelau salwch.

- Dywedodd yr Aelodau y bu cynnydd yn y niferoedd sy’n cydymffurfio â DPP a bod ffigurau absenoldeb salwch wedi gwella a dywedasant bod modd gwella eto fyth o hyd. O ystyried y gwaith i Ddatblygu’r Sefydliad a’r newidiadau posibl mewn meysydd gwasanaeth gwahanol, gofynnodd yr Aelodau pa fath o gynlluniau sydd ar waith a pha hyfforddiant a roddir i reolwyr i sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi ac nad yw salwch yn cynyddu. Esboniodd y Swyddogion y caiff y newid sylweddol ei gefnogi gan y datblygu sy’n digwydd o ran y sefydliad; mae’r staff yn mynd ymlaen gyda’r newidiadau felly ceir amserlen benodol; cyfathrebir â staff trwy gydol y newidiadau; mae staff am gael newid ac wedi bod yn barod i dderbyn newid o ran arweinyddiaeth; mae brwdfrydedd newydd ymhlith staff sy’n mwynhau eu gwaith. Gyda gweithlu’n sy'n heneiddio, mae cynllunio olyniaeth yn bwysig iawn, roedd gwaith wedi’i dargedu’n mynd rhagddo gyda’r Adran AD yn monitro tueddiadau salwch ac ymyrryd yn gynnar.

  Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod mwy i'w wneud gyda hyfforddiant yn ymwneud â'r Ddeddf, ond, mae'r strwythur yn fwy sefydlog erbyn hyn ac mae cysylltu gwell gyda staff sy’n cwrdd â’i gilydd fel Cyfarwyddiaeth; ar draws yr holl Gyfarwyddiaeth mae 18 uwch reolwr yn gweithio ynghyd ac maent yn optimistig iawn. Dywedodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion fod ysbryd staff wedi codi'n fwy o ganlyniad i staff yn symud i un lleoliad.

- Gyda golwg ar Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal, bu i’r Aelodau gydnabod y gwaith gwella sydd wedi bod a dywedon nhw fod niferoedd wedi lleihau'n sylweddol a gofynnont pa rai oedd y prif bethau a oedd yn dechrau datblygu. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y ffigurau wedi eu diweddaru hyd at ddiwedd mis Mai wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac roedd hi’n falch o ddweud wrth yr Aelodau fod Caerdydd wedi bwrw pob un o'i thargedau ac wedi gosod targed arall; mae'r ffocws wedi bod ar drefniadau partneriaeth a mireinio perthnasau. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod cydnabyddiaeth go iawn bod angen dull system gyflawn o’r cyfnod cyn mynd i'r ysbyty tan y cyfnod ar ôl rhyddhau; mae angen i’r gwasanaethau cymdeithasol ddeall ochr yr ysbyty ac yn groes; mae cydweithwyr Iechyd bellach yn rhan o hyn ac mae trefniadau llywodraethu wedi bod mewn lle ers mis Mehefin. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod cynlluniau ar waith ar gyfer pwysau’r gaeaf; roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda darparwyr gofal cartref a lleoliadau cartref gofal, er mwyn esbonio’r materion mewn Systemau Prynu Deinamig, Matrics a Proactis wrthynt; roedd y berthynas a fu’n gwaethygu gyda darparwyr yn dechrau gwella; roedd y systemau'n cael eu defnyddio mewn modd mwy addas gan arwain at fwy o geisiadau; roedd agwedd systemau llawn yn gwneud newidiadau ac yn gwella perthnasau.

  Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddant yn comisiynu gydag’r adran Iechyd yn y dyfodol, byddai hi’n cwrdd â Chadeirydd Sefydliad Cartref Gofal y DU ac Is-gadeirydd Fforwm Gofal Cymru mewn ychydig wythnosau a chydnabuwyd bod Caerdydd yn dangos arweinyddiaeth erbyn hyn ac yn gallu cynnig esiamplau.

- O ran comisiynu ar y cyd â'r adran Iechyd, gofynnodd yr Aelodau a oedd y swyddogion yn edrych ar enghreifftiau o systemau llwyddiannus yn Ewrop; dywedodd y swyddogion eu bod yn edrych ar nifer o fodelau sy'n gweithio'n llwyddiannus a rhoesant enghreifftiau o Ryddhau i Asesu a'r Monmouth model.   Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod gwaith comisiynu ar y cyd yn bwysig gan eu bod am i'r darparwyr fod â ffydd yng Nghaerdydd.

CYTUNWYD – Y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwr a'r swyddogion perthnasol yn diolch iddynt am fynychu Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Oedolion a Chymunedau ar 8 Mehefin 2016 ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

8 : YMATEB Y CABINET I YMHOLIAD GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH Y CASSC

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Susan Elsmore Aelod Cabinet dros Iechyd, Tai a Llesiant, Tony Young  Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Amanda Phillips Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion i'r cyfarfod.

Bu i'r Cadeirydd wahodd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac ailadroddodd hi ei bod wedi ymrwymo i faterion Iechyd Meddwl; roedd hi'n bresennol pan lofnododd y Prif Weithredwr yr addewid Amser i Newid ar ran y Cyngor ac roedd hi am ddweud y byddai'n parhau i ymrwymo i'r mater.

Dywedodd y Cyfarwyddwr, mewn perthynas ag ymateb y Cabinet, nad oes gwahaniaeth o ran bwriad; bod mater sylweddol o drin iechyd meddwl ac nad oes gwahaniaeth yn y gwerthoedd; cydnabu'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yn hyn fel gwaith a fydd yn arwain at welliannau; ond, ystyriodd nad yw'r argymhellion yn cyd-fynd â lle roedd y swyddogion ar y pryd.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Ystyriodd yr Aelodau ei bod yn ymddangos bod yr ymateb eithaf gelyniaethus ond derbynion nhw rhybudd y Cyfarwyddwr.

- Nid oedd yn glir i'r Aelodau a oedd Argymhelliad 6 wedi ei dderbyn ai peidio. Cytunodd y swyddogion y dylid diwygio hyn i ddweud Heb ei Dderbyn.

- Ystyriodd yr Aelodau y dylai ymatebion ddod yn ôl mewn yn fwy prydlon fel bod y dystiolaeth dal yn gywir ac yn adrodd tueddiadau cyfredol.  Esboniodd y Cyfarwyddwr y byddai ymateb cynt wedi bod yn well, ond roedd pwysau enfawr ar y Gyfarwyddiaeth yn enwedig o ran paratoi'r Ddeddf ac roedd y cais yn anodd ei wireddu.

- O ystyried y swm o waith a roddwyd, gofynnodd yr Aelodau a yw'r swyddogion wedi dysgu unrhyw beth gwerthfawr gan yr wybodaeth.  Esboniodd y Cyfarwyddwr fod 2 beth yr oedd wedi eu dysgu gan yr adroddiad, sef: mae

angen iddynt strwythuro agwedd nad yw'n dibynnu ar ddull Feddygol/Meddyg Teulu; hefyd dangosodd yr arolwg nad oedd dros 50% o bobl yn deall sut mae defnyddio'r gwasanaethau ac roedd angen gwella hyn; gobeithiai y byddai hyn mewn sefyllfa well mewn blwyddyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod naws yr adroddiad eithaf negyddol gan fod y gwasanaeth yn cael ei ddisgrifio fel un gwael.

- Gyda golwg ar Argymhelliad 5, dywedodd yr Aelodau nad oedd yr argymhelliad wedi ei dderbyn a dywedodd bod y swyddogion yn gwneud hyn yn barod. Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn edrych i arbenigwyr sy'n dweud eu bod yn cydymffurfio, ond mae'r tîm craffu yn dweud nad yw hynny'n wir. Derbyniodd y Cyfarwyddwr nad yw'n ddigon bod yn barod eu cymwynas yn unig a'i bod yn bwysig cydnabod gwendidau a mynd i'r afael â nhw. Dywedodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion ei bod hi bellach yn gyfrifol am Wasanaethau Iechyd Meddwl a bod gwaith i'w wneud; mae gwasanaethau'n cael eu gyrru gan iechyd, byddai hi'n cwrdd â'i gwrthran yn Ysbyty Athrofaol Cymru i edrych ar Adolygiad Gwasanaethau Cymunedol wedi'i gwblhau gan y Bwrdd Iechyd, a byddai argymhellion yr adroddiad hwn yn cael eu rhannu yno.

- Cydnabu'r Aelodau'r oedi a'r gwahaniaeth mewn sefyllfa pan ysgrifennwyd yr adroddiad a'r ymateb a dderbyniwyd ac ystyrion nhw y gallasai'r ymateb ystyried y gwaith y mae'r tîm craffu wedi edrych arno. Meddyliodd y swyddogion fod hyn yn sylw teg a gwnaethon nhw ystyried hyn; gan ddweud eu bod wedi dysgu ohono, ond teimlent na allent dderbyn yr argymhellion fel y'u hysgrifennwyd; ond gallai fod wedi ysgrifennu ymateb mwy adeiladol a gwerthfawrogol, a chydnabuwyd y byddai hyn wedi bod yn fwy defnyddiol.

- Gofynnodd yr Aelodau pryd sefydlwyd y Grŵp Pwyllgor Rhanbarthol a dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y'i sefydlwyd ychydig ar ôl ei benodi ym mis Awst/mis Medi ac y cyflwynwyd y canllawiau ar ôl hynny.

- Dywedodd yr Aelodau fod y rhaglen ar gyfer craffu wedi ei gynllunio, felly byddai'r swyddogion wedi gwybod bod y Gorchwyl a Gorffen wedi ei gynllunio, ac os oes rhywbeth ar fin ddigwydd sy'n dwyn effaith fel newid mewn trefniadau llywodraethu yna mae angen cyfathrebu'n well. Cytunodd yr Aelod Cabinet ac ystyriodd ei bod yn bwysig trefnu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cadeirydd.

CYTUNWYD - y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwr a'r swyddogion perthnasol yn ddiolch iddynt am fynychu Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Oedolion a Chymunedau ar 8 Mehefin 2016 ac i gyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

9 : PAPUR BRIFFIO - CYNLLUN TRWYDDEDU YCHWANEGOL TAI AMLFEDDIANNAETH

Dywedodd yr Aelodau y cynhaliodd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Sesiwn Galw i Mewn ar 7 Hydref 2015 ynglŷn ag ailddatgan y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn Ward Cathays. Ar ôl y cyfarfod hwn, diwygiodd yr

Aelodau eu rhaglen waith ar gyfer 2015/16 i gynnwys diweddariad ar gynlluniau trwyddedu ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth yn Cathays a Plasnewydd.

Rhoddodd Atodlen A yr Adroddiad ddiweddariad ar ddatblygiad hyd yn hyn a thynnu sylw at yr heriau a wynebir.

Ceisiodd y prif swyddog craffu sylwadau Aelodau'r Pwyllgor ar ddiweddariad yr adroddiad i'w hanfon yn ôl.

Roedd yr aelodau am ddiolch i'r swyddogion am adroddiad cynhwysfawr. Dywedodd yr Aelodau fod newid staffio wedi arafu datblygiad staff braidd; gwnaeth yr Aelodau arsylwadau hefyd ar y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ac roeddent o'r farn nad yw’n glir pa mor dda y mae’r gwasanaeth yn cael ei blismona. Cododd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynghylch costau cwrs cofrestru Landlordiaid a gynhelir trwy Rentu Doeth Cymru a chytunodd y swyddogion i gadarnhau gwybodaeth gyda'r swyddogion perthnasol.

10 : ADRODDIAD BUSNES Y PWYLLGOR

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Medi 2015, trafododd yr Aelodau sut hoffent ymdrin ag adroddiadau yn y dyfodol yn ymwneud â busnes y pwyllgor, fel adroddiadau gohebu ac adroddiadau rhaglen gwaith. Penderfynodd yr Aelodau gyfuno’r rhain mewn adroddiad Busnes Pwyllgor cyffredinol.

Rhoddodd yr adroddiad hwn y newyddion diweddaraf ar ohebiaeth i’r Pwyllgor. Derbyniodd y Pwyllgor gopïau o ohebiaeth a anfonwyd ac a dderbyniwyd mewn perthynas â materion yr oedd y Pwyllgor eisoes wedi craffu arnynt. Dywedodd yr Aelodau mai’r ymatebion o’r cyfarfod diwethaf oedd yr unig rai ar ôl.

Dywedodd yr Aelodau hefyd fod yr adroddiad Gorchwyl a Gorffen ar Economi Gyda’r Nos yn mynd i’r Cabinet ym mis Mehefin.

Trafododd yr Aelodau raglennu gwaith a rhoddodd y prif swyddog craffu wybod i’r Aelodau am y weithdrefn ar gyfer adnabod a blaenoriaethu rhestr pynciau i’w hystyried, gyda’r egwyddorion arweiniol i fod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.

Mewn blynyddoedd blaenorol, e-bostiwyd yr Aelodau, y Partneriaid a’r Cyrff Allanol a gofynnwyd iddynt a oedd unrhyw beth y hoffent ddod â fe i’r Pwyllgor. Trafododd Aelodau nifer y cyfarfodydd a oedd ar gael i drafod pynciau ac ystyriont, gan mai’r flwyddyn cyn etholiad yw hi a chan mai dim ond 6 chyfarfod sydd, a fyddai digon o amser i ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion yn iawn ac y gallai digon o bynciau fod wedi eu penderfynu gan Aelodau'r Pwyllgor i lenwi’r agendâu; ond ystyriwyd hefyd fod angen i’r Pwyllgor fod yn gynhwysfawr.

Ar ôl trafod ymhellach, penderfynwyd y byddai’r prif swyddog craffu yn e-bostio Aelodau’r Pwyllgor, Aelodau’r Cabinet a’r Cyfarwyddwyr i gael awgrymiadau ar gyfer pynciau ac yna byddai ymarfer blaenoriaethu didostur i benderfynu ar y rhaglen waith. Byddai’r prif swyddog craffu hefyd yn ceisio barn yr Aelodau ar sut y gwneir y blaenoriaethu h.y. ar ffurf pleidlais neu trwy sgorio ayyb.

11 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu’r Gwasanaethau Oedolion a Chymunedau ar 6 Gorffennaf 2016 am 5.00pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir Caerdydd.